# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion Cryno o'r Pwyllgor (CC(3)-12-10) : 28 Medi 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_28_09_2010&t=0
**Amser: 09.15 – 10.59**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol**
Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Lynne Neagle, Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Tyst**
Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

**Staff y Pwyllgor**
Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Sian Thomas, Ymchwilydd yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

**1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham a Sandy Mewies. Roedd Lynne Neagle yn dirprwyo ar ran Sandy Mewies. Nododd y Cadeirydd y bydd Lynne yn dirprwyo ar ran Sandy nes y cytunir ar y newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, nododd y Cadeirydd y dylai'r Aelodau hysbysu'r Pwyllgor o ddatganiad o fuddiant heb gael eu hatgoffa.

### 2: Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (09.16 – 10.31)

2.1 Craffodd aelodau'r Pwyllgor ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru.

**Camau Gweithredu**
- Y Comisiynydd i ddarparu manylion y data o ran pa ganran o oedolion, plant a phobl ifanc a oedd wedi gwneud y cysylltiad cyntaf â'i swyddfa.

- Y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnwys ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a rôl y Comisiwn Plant yn y Cwricwlwm ABCh.
- Y Comisiynydd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith.
- Y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd i sicrhau bod digon yn cael ei wneud i fonitro profiadau plant o'r GIG.
- Y Comisiynydd i ddarparu astudiaeth o'r rheswm pam mae rhai gwledydd yn teimlo atgasedd cynhenid at blant a phobl ifanc.

### 3: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i gytuno i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitemau 4 - 8

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd gynnig gerbron, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i gytuno i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 4: Comisiynydd Plant Lloegr – ymateb i'r ymgynghoriad (10.31 – 10.45)

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adolygiad annibynnol o swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr

**Cam gweithredu**

- Y Clerc i ddosbarthu ymateb draft i'r ymgynghoriad at yr Aelodau.

## 5: Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu – adroddiad drafft (10.45 – 10.58)

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad draft a gwnaeth sylwadau arno.

5.2 Caiff yr adroddiad ei drafod eto yn y cyfarfod nesaf.

## 6: Trafod Cylchlythyr yr Hydref i Blant a Phobl Ifanc a chytuno arno (10.58 – 10.59)

6.1 Nododd yr Aelodau y Cylchlythyr a chytunwyd i anfon sylwadau at y Clerc.

## 7: Adolygiad o Wasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru: Crynodeb mewn Saesneg Clir – adroddiad drafft (10.59 – 11.00)

7.1 Nododd yr Aelodau yr adroddiad a chytunwyd i anfon sylwadau at y Clerc.

**8: Papurau i'w nodi**

CYP(3)-09-10 : Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2010

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Medi 2010**